

Iawndal morgeisi gwaddol

Mae'r daflen wybodaeth hon o'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn esbonio:

- sut caiff iawndal ei gyfrifo os oes gennych gwyn dilyn am forgaïs gwaddol, ac
- yn ateb rhai cwestiynau cyffredin

→ Sut caiff iawndal ei gyfrifo

Gan amlaf, caiff iawndal ei selio ar beth fyddai'ch sefyllfa nawr petaech chi ddim wedi cymryd polisi gwaddol ac wedi cymryd morgaïs ad-dalu o'r cychwyn.

Bydd y cyfrifiad yn cymharu:

- premiymau'r polisi gwaddol a llog y morgaïs rydych chi wedi talu a gwerth ildiad presennol o bolisi eich morgaïs gwaddol, gyda'r
- taliadau morgaïs ac ad-daliadau cyfalaf y byddech wedi'u talu ar forgaïs ad-dalu cyfwerth, a faint o gyfalaf y byddech wedi talu oddi ar y morgaïs.

Gall y cyfrifiad yma amrywio oherwydd ffactorau megis p'un ai wnaethoch chi gymryd sicrwydd bywyd, neu b'un ai wnaeth y polisi rhedeg i mewn i'ch ymddeoliad ac ni wnaeth y cwmni eich hysbysu na fydd hi'n fforddiadwy bellach wedi i chi rhoi'r gorau i weithio.

Dylech chi hefyd fod yn gallu adfer y ffioedd a chostau rhesymol o drosglwyddo i forgaïs ad-dalu.

→ Os ydych chi eisoes wedi ildio eich polisi gwaddol ac wedi newid i forgaïs ad-dalu

Bydd y cyfrifiad yn cymharu:

- premiymau'r polisi gwaddol a llog y morgaïs rydych chi wedi talu, hyd nes i chi ildio'r polisi, a'r swm y derbynioch chi pan gafodd y polisi ei ildio, gyda
- llog y morgaïs a'r cyfalaf ad-daliad y byddech wedi'u talu, hyd nes y cyfnod lle newidoch chi i forgaïs ad-dalu.

Gall y cyfrifiad manwl gywir amrywio os bydd angen ystyried ffactorau eraill, megis p'un ai wnaethoch chi gymryd sicrwydd bywyd.

Os nad yw'r iawndal yn cwrdd â'r diffyg a amcanestynnir, gweithredwch nawr! Darllenwch ein canllaw ar 'Delio â diffyg yn eich morgaïs'.

Sut caiff iawndal safonol ei gyfrifo – enghraifft

Y morgaïs gwaddol

Polisi gwaddol hyd 25 mlynedd, 5 mlynedd i mewn hyd yn hyn

Y morgaïs (y swm darged)	£50,000
Y diffyg ag amcanestynnir	£6,500
Premiwm gwaddol misol	£75

Cymharu gwaddol ac ad-daliad

Gwerth ildiad polisi gwaddol	£3,200
Cyfalaf y byddai wedi'i ad-dalu gyda morgaïs ad-dalu gyfwerth	£4,200
Y gwerth ildiad minws y cyfalaf wedi'i ad-dalu	-£1,000
Y gost o drosglwyddo o forgaïs gwaddol i forgaïs ad-dalu	-£200

Cyfanswm y costau hyd yn hyn

Morgaïs ad-dalu gyfwerth (cyfalaf + llog + sicrwydd bywyd tymor gostyngol)	£21,950
Morgaïs gwaddol (premiwm y gwaddol + llog)	£22,250
Y gwahaniaeth yn y costau (ad-daliad minws gwaddol)	-£300

Sail yr iawndal

Y golled o'r werth ildiad minws y cyfalaf wedi'i ad-dalu	-£1,000
Y golled o gyfanswm y costau ychwanegol o dan forgaïs gwaddol	-£300
Y gost o drosglwyddo i forgaïs gwaddol	-£200

Cyfanswm y golled
(felly swm yr iawndal sy'n ddyledus)
-£1,500

Yn yr enghraifft hon, roedd y sawl wnaeth wneud y cwyn ar ei golled yn ariannol oherwydd bod:

- gwerth ildio'r gwaddol yn llai na'r cyfalaf a ad-dalwyd
- cyfanswm costau'r morgaïs gwaddol yn fwy na beth fyddai cyfanswm y costau wedi bod ar forgaïs gwaddol cyfwerth.

Mae'r ddwy golled a'r gost o drosglwyddo i forgaïs ad-dalu yn cael eu cyfrifo i gael cyfanswm yr iawndal.

→ Cwestiynau Cyffredin

Mi wnes i newid i forgais ad-dalu ond mae dal gen i bolisi gwaddol. Cafodd fy iawndal ei gyfrifo hyd at bryd newidiai i i forgais ad-dalu. Ydy hyn yn gywir?

Ydy, oherwydd dechreuwyd y polisi gwaddol yn wreiddiol er mwyn ad-dalu eich morgais. Felly mae'r iawndal, fel arfer, yn cael ei gyfrifo hyd at y cyfnod pan nad yw'r polisi gwaddol yn cael ei ddefnyddio bellach i ad-dalu'ch morgais.

Rydw i wedi derbyn cynnig o iawndal gan y cwmni. Sut ydw i'n gwybod ei fod yn gynnis teg?

Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA) – rheoleiddwyr gwasanaethau ariannol y DU – wedi rhoi cyfarwyddyd i gwmnïoedd ynglyn a sut i gyfrifo iawndal morgais gwaddol a dylent ddilyn y cyfarwyddyd hwn.

Os ydych yn ansicr, gofynnwch yw'r cwmni wedi defnyddio cyfarwyddyd yr AYA i gyfrifo'r iawndal a gofynnwch iddynt esbonio'n glir sut mae'r cyfrifiad wedi cael ei gyfrifo. Gallwch gwyno os ydych yn teimlo bod camgymeriad wedi digwydd.

Rydw i wedi cael cynnig iawndal ond nid yw'n ddigon i gyfro fy niffyg – pam?

Nid yw iawndal wedi'i selio ar werth disgwylidig y polisi. Gan amlaf, caiff iawndal ei selio ar beth fyddai'ch sefyllfa nawr petaech chi wedi cymryd morgais ad-dalu o'r cychwyn yn hytrach na'ch morgais gwaddol.

Rwy'n anfodlon gyda'r iawndal sydd wedi'i gynnis i mi. Os af i a'n cwyn i'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol (FOS), gallaf gael mwy?

Bydd y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol yn defnyddio canllawiau'r AYA yn yr un modd â'r cwmni i benderfynu ar swm yr iawndal sy'n ddyledus. Felly os yw'r cynnig o'r cwmni yn cydymffurfio â'r canllaw hwn, nid fydd y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol yn debygol o dalu mwy.

Prin iawn yw'r amgylchiadau lle gall y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol orchymyn y cwmni i dalu mwy o iawndal. Er enghraifft, os oes yna wall yng nghyfrifiad y cwmni, neu os oes ffactorau newydd wedi dod i'r golwg sy'n gofyn bod y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol yn defnyddio dull gwahanol o gyfrifo.

Newidiai i i forgais ad-dalu peth amser cyn i mi wneud cwyn – gall hyn effeithio ar y swm sy'n ddyledus i mi?

Os cawsoch eich cynghori i brynu'r polisi gwaddol gwreiddiol gallech ddal i fod yn gymwys am iawndal. Ond gall y cyfrifiad gael ei effeithio gan y dyddiad y newidiod chi a hefyd ar b'un ai ildioch chi'r polisi gwaddol a phryd.

Cysylltwch â'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol **financial-ombudsman.org.uk**.

Ffoniwch 0800 023 4567 neu 0300 123 9 123.

Os derbyniwch chi iawndal trwy wneud cwyn am werthiant eich polisi gwaddol, mae'n syniad da i'w roi tuag at ostwng y swm sy'n weddill ar eich morgais.

Oes rhaid i mi dalu treth ar unrhyw iawndal byddaf yn ei dderbyn?

Os mae'r iawndal yn eich dychwelyd i'r sefyllfa y byddech wedi bod ynddi pe baech chi wedi cymryd morgais ad-dalu yn lle, yna gan amlaf, ni fydd rhaid i chi dalu treth ar yr iawndal. Os mae amgylchiadau arbennig y cais yn golygu bod cyfrifiad yr iawndal yn cynnwys swm o log ychwanegol, yna bydd rhaid i chi dalu treth ar y llog hwnnw.

Mewn rhai achosion penodol eraill, os yw'r polisi wedi'i werthu, ildio neu'n amrywio er enghraifft, canllaw'r AYA i gwmnïoedd yw efallai y byddai'n briodol iddynt dalu unrhyw dreth bersonol ychwanegol y bydd yn ddyledus o ganlyniad i'r cais am iawndal.

Os ydych chi'n ansicr o'ch sefyllfa, neu os oes angen cymorth arnoch i gyfrifo faint o dreth bydd rhaid i chi dalu, cysylltwch â Chyllid a Thollau EM (CThEM).

Ewch i **hmrc.gov.uk** neu ffoniwch y llinell gymorth Trethi 0300 200 3300.

I gael golwg ar ystod lawn ein canllawiau ac i fynnu gopi, ewch i
moneyadvice.service.org.uk/cy

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn wasanaeth annibynnol ac wedi'i sefydlu gan y llywodraeth i helpu pobl gwneud y mwyaf allan o'i arian trwy roi cyngor ariannol diduedd a di-dâl i bawb ledled y DU – ar-lein a dros y ffôn.

Rydyn ni'n rhoi cyngor, awgrymiadau ac offer ar ystod eang o themâu ariannol.

Ewch i

moneyadvice.service.org.uk/cy

Neu ffoniwch linell Gwasanaeth Cynghori Ariannol ar 0800 138 0555*

Typetalk

1800 1 0300 500 5000

Os hoffech y canllaw hwn mewn fformat Braille, print bras neu ar ffurf sain cysylltwch â ni ar y rhifau uchod.

*Galwadau am ddim. I'n helpu ni i gynnal a gwella ein gwasanaeth, gall galwadau cael eu recordio neu eu monitro.

Gwybodaeth yn gywir adeg mynd i'r wasg (Ebrill 2017)